O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif. 578 (Cy.83)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffyrdd Ymuno ac Ymadael wrth Gyfnewidfeydd Ffynnon Taf a Glan-bad, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

Gwnaed *2 Mawrth 2011*

Yn dod i rym *14 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Mawrth 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffyrdd Ymuno ac Ymadael wrth Gyfnewidfeydd Ffynnon Taf a Glan-bad, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sydd wedi arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 21:00 o'r gloch ar 14 Mawrth 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o gefnffordd yr A470 wrth Gyfnewidfeydd Ffynnon Taf a Glan-bad ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.